**CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD**

**Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd**

**2:00 y.p. 15 Ebrill 2019**

**Ystafell Bwyllgor 1, Cyngor Sir Ynys Môn**

**Presennol:**

**Cyngor Sir Ynys Môn**
Cyng. John Griffith
Cyng. Robin Williams
Cyng. Richard O Jones
Cyng. Kenneth P Hughes

**Cyngor Gwynedd**
Cyng. Paul Rowlinson
Cyng. Berwyn Parry Jones
Cyng. Gareth Griffith
Cyng. Owain Williams
Cyng. John Pughe Roberts

**Swyddogion:**

| | |
|---|---|
| Dewi Francis Jones | Prif Swyddog Cynllunio (CSYM) |
| Rhun ap Gareth | Uwch Gyfreithiwr (CG) |
| Bob Thomas | Arweinydd Tîm – (UPCC) |
| Aled Lewis | Uwch Swyddog Cynllunio (UPCC) |

Yn absenoldeb Cyng. Richard Dew, cytunwyd i'r Cyng. Gareth Griffith fod yn Gadeirydd i'r cyfarfod

**Ymddiheuriadau:**

Cyng. John Brynmor Hughes (CG)
Cyng. Gareth Roberts (CG)
Cyng. Bryan Owen (CSYM)
Cyng. Richard Dew (CSYM)

**1. YMDDIHEURIADAU**

Ymddiheuriadau fel y nodwyd uchod

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

**3.** **MATERION BRYS**

Ni dderbyniwyd unrhyw faterion brys.

**4.** **COFNODION**

Derbyniwyd cofnodion Pwyllgor a gynhaliwyd ar 22 Mawrth 2019 fel y rhai cywir. Eglurodd Bob Thomas efallai na fydd Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ar y 23ain Mai 2019 yn debygol o gael ei gynnal, ac efallai bydd eitemau'r cyfarfod hwn yn cael eu trosglwyddo i'r Pwyllgor Cynllunio ar y Cyd olynol ar 14eg Mehefin 2019.

**5.** **CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL**

**i) Canllaw Cynllunio Atodol: Tai Fforddiadwy**

Cyflwyniad gan Bob Thomas yn egluro'r newidiadau i'r canllaw ers iddo gael ei gyflwyno i'r Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd ar y 22 Mawrth 2019 ac yn gofyn i'r Pwyllgor gymeradwyo'r ymateb arfaethedig i'r sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori cyhoeddus ynglŷn â'r Canllaw Cynllunio Atodol a mabwysiadu'r Canllaw.

Materion a godwyd:

- Codwyd cwestiwn gan y Cyng. Owain Williams ynglŷn â pherthnasedd yr Asesiad Cynaliadwyedd a'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ac ail gyflwyno eryr i'r ardal.
- Cytunodd Cyng. Kenneth Hughes fod ystyr y term "lleol" yn y Canllaw yn addas a byddai'n hwyluso pobl lleol i gael tai fforddiadwy.

Ymateb:

- Esboniwyd mai barn sgrinio am Arfarniad Cynaliadwyedd ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd o'r Canllaw oedd yr asesiadau â ymgymerwyd yn unol â'r Rheoliadau perthnasol ac nad oedd y sylw'n berthnasol i'r CCA. Fodd bynnag cytunwyd fod y neges yn un pwysig a byddai'n fater i'w godi gyda'r adrannau perthnasol o fewn y Cynghorau unigol yn hytrach nac yn y cyfarfod hwn.

**<u>Penderfyniad</u> – Derbyn yr argymhelliad i gymeradwyo'r ymateb i'r sylwadau a dderbyniwyd am y Canllaw Cynllunio Atodol a mabwysiadu'r Canllaw hwn.**

I gloi'r cyfarfod fe wnaeth y Prif Swyddog Cynllunio nodi fod Rebeca Jones wedi ei hapwyntio fel rheolwr newydd yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd ac fe fydd yn cychwyn yn y swydd diwedd mis Mai 2019.